

**MOLD TOWN COUNCIL
CYNGOR TREF YR WYDDGRUG**

Town Hall
Earl Road
Mold
Flintshire
CH7 1AB

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804



www.moldtowncouncil.org.uk

Neuadd y Dref
Ffordd yr Iarll
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AB

Ffôn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

Aelodau'r Cyngor

21 Ebrill 2023

Annwyl Gyngorydd

Gofynnir ichi fynychu cyfarfod Cyngor Tref Yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm ar ddydd Mercher 26th April 2023** yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Yr Wyddgrug. Bydd ar gael hefyd drwy fideo-gyndaleda fel cyfarfod hybrid; gweler y ddolen isod.

Yn ddiffuant,

Clerc a Swyddog Cyllid y Dref

AGENDA

CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Ar ddechrau'r cyfarfod, mae croeso i'r cyhoedd ofyn cwestiynau i'r Cynghorwyr am chwarter awr neu sôn am unrhyw faterion sydd o bwys iddynt. Os na fydd unrhyw faterion yn cael eu crybwyll, yna bydd y Cyfarfod y Cyngor yn dechrau am 6pm.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2. DATGANIADAU O FUDD

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fudd y gwyddys amdanynt mewn eitemau ar yr agenda.

3. CYHOEDDIADAU'R MAER

4. COFNODION

4.1 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, Gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2023 (ynghlwm).

4.2 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2023 (ynghlwm).

4.3 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adeiladau a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023. (Cyflwynwyd).

4.4 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Arbennig gydag Ymddiriedolwyr Daniel Owen a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023. (Cyflwynwyd).

5. Y TREFNIADAU AR GYFER CYFARFOD BLYNYDDOL 2023 AC ENWEBU'R MAER AR GYFER 2023/2024

Cytuno'n ffurfiol y bydd y Cyfarfod Blynyddol yn cael ei gynnal am 6pm ar ddydd Mercher, 10 Mai 2023.

Ystyried enwebu'r Maer yn y Cyfarfod Blynyddol, a gynhelir ar 10 Mai 2023, ar gyfer y Flwyddyn Cyngor sydd ar ddod.

Nodi y gallai cyfarfod cyntaf y Flwyddyn Cyngor newydd gael ei chynnal o bosibl ar 17 Mai 2023 ac nid ar 31 Mai 2023.

6. ADRODDIADAU SWYDDOGION

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu â'r Gymuned a'r Swyddog Prosiect Adfywio Busnes (ynghlwm).

7. ADOLYGIAD CITTASLOW

Derbyn adroddiad gan y Cynghorydd Hill (ynghlwm).

8. Y GRŴP ADEILADAU

Cynhaliwyd cyfarfod y Grŵp Adeiladau ar 24 Ebrill. Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Cyngor.

9. ADNEWYDDU'R GORCHMYNION AMDDIFFYN MANNAU CYHOEDDUS

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnal ymgynghoriad ynghylch adnewyddu'r Gorchmynion Amddiffyn Mannau Cyhoeddus sy'n gorfod cael eu hailystyried a'u hadnewyddu bob tair blynedd. Mae Gorchmynion Amddiffyn Mannau Cyhoeddus (GAMC) yn ymdrin â niwsans penodol sy'n effeithio ar ansawdd bywyd y gymuned leol, trwy osod amodau ar ddefnyddio man penodol sy'n berthnasol i bawb. Er enghraifft, cyfyngu ar yfed mewn manau cyhoeddus a rheoli cŵn. Gofynnir i'r Aelodau ystyried argymhellion i'w rhoi gerbron.

10. ADNEWYDDU YSWIRIANT BHIB

I'w nodi. Y pris adnewyddu yw £1,754 o 1 Mehefin, sy'n rhesymol ac rydym yn gwneud cytundeb arall hirdymor am 3 blynedd. Mae'r Swyddog Digwyddiadau ar ganol cynnal trafodaethau â'r cwmni yswiriant ynghylch materion ychwanegol am amryw ddigwyddiadau eleni. Felly byddai'n syniad da inni barhau i ddefnyddio'r cwmni hwn. Fodd bynnag, gall Clerc y Dref gael 2 ddyfynbris ychwanegol at ddibenion archwilio er mwyn dod i benderfyniad ym mis Mai.

11. TELEDU CYLCH CAU CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

Byddwch cystal ag adolygu'r wybodaeth ynghlwm gan y Swyddog Digwyddiadau, Jane Evans, a fydd yn egluro'r eitem hon.

12. HYSBYSIAD YNGHYLCH Y PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Nodi'r adroddiad ynghlwm.

13. CYFARFODYDD A FYNYCHWYD

Er mwyn i Aelodau roi adroddiad ysgrifenedig i'r Cyngor am unrhyw wybodaeth y maent wedi ei chael gan gyrff allanol.

14. Y TOILEDAU CYHOEDDUS YNG NGHANOLFAN DANIEL OWEN

Cynhaliwyd cyfarfod ar 24 Ebrill gyda Phwyllgor Arbennig o Gyngor Dref yr Wyddgrug ac ymddiriedolwyr Canolfan Daniel Owen. Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Cyngor.

15. CYFRIFON / TALIADAU

Cymeradwyo'r drefnlen atodedig sy'n dangos y cyfrifon y gwnaed trefniadau i'w talu – Mis 12, gan nodi bod y taliadau'n cael eu gwneud yn unol â phwerau cynghorau lleol.

16. SWYDDI GWAG

I nodi'r sefyllfa ynghylch cynrychiolwyr ar gyrff allanol, Pwyllgorau a Phaneli'r Cyngor.

Pwyllgor Cynllunio - un swydd wag.

Budget Group - un swydd wag.

Pwyllgor Polisi ac Archwilio – un swydd wag.

SYLWER:

Gall aelodau'r wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hwn (ond heb gymryd rhan) drwy drefniant ymlaen llaw gyda Chlerc a Swyddog Cyllid y Dref).

CYFARWYDDIADAU ZOOM

<https://us02web.zoom.us/j/88907860545?pwd=aEdsdmw0NEozMFNkc zE3ZWh4YlprUT09>

Cyfeirnod y Cyfarfod: 889 0786 0545
Cod: 398198